

Tud 1.

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanbedr 1.2.24

Presennol – Eirwyn Thomas, Jane Taylor Williams, Robin Ward, Luise Vassey, John Evans, Annwen Hughes, Helen Johns, Kevin Titley, Cyng. Gwynfor Owen.

Ymddiheuriadau – Nia Jones.

Croesawu pawb I'r cyfarfod gan y Cadeirydd Eirwyn Thomas.

Datgan Buddiant – dim I'w ddatgan

Cadarnhau cofnodion y ddau gyfarfod diwethaf – fel rhai cywir. Ond bod angen gwelliant ar yr adroddiad drafft am HAL.

Gwelliant HAL fel a ganlyn

Bod cryn drafodaeth agored wedi bod, a bod pleidlais wedi ei chynnal, trwy ddangos dwylo, ond bod y canlyniad I hyn yn guddiedig – hynny yw nad oes y datgan unrhyw enwau Cyngorydd unigol.

Hefyd codwyd y mater bod enwau y sawl sydd yn gwneud unrhyw waith yn cael ei nodi; Fel yn cymerud unrhyw gamau I addo gwneud rhywbeth.

e.e bod Jo Blogs wedi addo edrych ar lwybr 1.

Gweddill cofnodion yn foddhaol.

Adroddiad Cyllid

Yn y Banc diwedd Ionawr = £26031.51

Angen addasu hwn gan bydd taliad am banc charges.

Wedi talu £349.50 I HAL am fis Rhagfyr a Ionawr.

Dal I wneud am chwefror a Mawrth 2024.

Derbyn arian claddedigaeth o £1746

Presept – bod £21000 wedi ei nodi.

Angen nodi ar yr agenda bod cyfarfodydd yn agored , a thrwy zoom. Hyn hefyd ar ddiwedd y cofnodion.

1.Ceisiadau Cynllunio – dim byd o'r Newydd

a)Beth yw hanes cais cynllunio Mochras am y sied storio? (ETH yn codi'r mater)

AH am edrych I mewn I hyn.

b)Bod angladd wedi ei gynnal yng Mynwent Capel Gwynfryn – y Clerc wedi hysbysu y perchennog. (7 diwrnod o rybudd).

2. Cae Chwarae – tybed a yw'r Gwaith wedi ei wneud, gwelliannau? RW yn gweld y safle yn edrych yn dda. Clerc I holi am hyn. Egluro nad oes cyllid I wneud y cwbl, cadw y meinciau allan o'r Gwaith am y tro.

Tud 2.

3. Y Fynwent – clawdd . Gwaith l'w wneud mewn pythefnos. ETH wedi cysylltu I gael rhif ysiwriant Arfon Pugh.

4. Parhaed Brawdgarwch – pasiwyd y bydda gwyneb composite yn well fel sedd na slabiau concred. ETH am gysylltu I weld be fydda gwahaniaeth pris.

5. HAL – Hamdden Ardudwy.

Adroddiad gan Cyng. Gwynfor Owen parthed cyfarfod cyhoeddus a fu yn Cafi Pwll Nofio pnawn sul Ionawr 29.

Oherwydd penderfyniad Cyngor Llanbedr, Dyffryn Ardudwy a Thalsarnau I beidio ariannu yr oedd yna

Dristwch, Siomedigaeth, Dicter.

Bod yr achos yn mynd l'r Ombudsman mwya thebyg. Bod y dull y gwnaethpwyd y penderfyniad ddim yn ddilys, dim yn ddilys cymerud pleidlais dros e bost.

Hefyd ddim yn ddilys derbyn secret ballot. Hyn yn enwedig ppryd mae son am arian .

Mae gan y cyhoedd hawl I wybod.

Nid oedd yna unrhyw Gynghorwyr yn y cyfarfod.

Bod Cyngor Cymuned Llanbedr wedi nodi nad oedd plant cynradd yn mynychu y pwll, ond heb gysidro bod plant o Lanbedr sydd yn Ardudwy yn cael gwersi yn y pwll.

Nododd hefyd yn yr hinsawdd economaidd sydd yn bodoli ar hyn o bryd nad oes unrhyw Bwll Nofio a Chanolfan Hamdden yn saff.

Nododd AH dyna oedd penderfyniad y Cyngor o fwyafrif, ond tydun nhw ddim yn barod I wrando.

Hefyd I wneud yn glir mae cudd (secret) oedd nad oeddem yn rhannu enwau neb allan l'r cyhoedd sut a phwy oedd wedi pleidleisio.

JE – Bod £27000 wedi ei dderbyn I wneud plan busnes – ond hyn ddim yn digwydd tan Mis Mawrth/Ebrill, a'r Cynghorau yn gorfod gwneud penderfyniad are u cyllideb cyn 27 o Ionawr

ETH – eto yn holi pam bod yr holl wirfoddolwyr yn troi eu cefnau ar y Pwll. Dim digon ohonynt ar y Bwrdd rheoli. Hyn yn ei hun y n achos o bryder, ac yn achosi problemau.

HJ – barod iawn I bardduo y Cynghorau.

AH – dim son am ddiolch am yr hyn sydd wedi ei roi ar hyd y blynyddoedd

LV – bod y bleidlais yn un teg wedi cryn drafod.

Adroddiadau Cynghorwyr Sir –

Annwen Hughes

Tud 3.

Diolch am y goleuadau nadolig er ei bod wedi methu bod yn bresennol ar y noson goleuo am y tro cyntaf, gan bod ganddi betha personol wedi eu trefnu.

- Twll yn y ffordd ger y toiledau cyn y Nadolig. Wedi hysbysu CG a hwythau wedi ei drwshio yn syth.
- Wedi cael bin baw cwn Newydd ar y palmant ger y Victoria.
- Wedi holi am fin graen ger Cilcychwyn.
- Bod CG wedi graeanu Rhiw Felin yn ystod cyfnod rhewllyd.

Gwynfor Owen –

- Anhawster gyda Gofal Cymdeithasol – Cwmni Preifat sydd yn gofalu yn awr. Prinder staff.
- Wedi bod mewn cyfarfod parthed Aerodrom gyda Annwen Hughes, Dyfrig Siencyn a Sioned Econ. Parthed e bost Jack North – yn honni bod cyfleusterau yn cael eu tynnu o'r safle a'u gwerthu. Ond y dealltwriaeth yw mae hen bethau o'r hen amser oedd rhain. Bod Cyngor Gwynedd yn edrych I mewn I hyn.
- Trethi – yn codi 10% gan Cyngor Gwynedd
Angen edrych I arbed 8 milliwn , falle drwy doriadau neu o'r arian wrth gefn.
Deall bod toriad mewn National Insurans.
Gwynedd a Conwy oedd y ddwy Sir yn derbyn llai na siroedd eraill o arian gan y Llywodraeth.
Y dyfodol yn edrych yn dywull iawn.
Bod gwasanaeth tan angen 9% o gyllid yn uwch eleni.
Ond 4.5% yn uwch ar gyfer Gwynedd .

Unrhyw Newyddion Arall

Jane Taylor Williams – Ffordd Newydd

Yn nodi bod Lee Waters yn dod I Llanbedr yfory 2.2.24

Gan ei fod wedi methu dod ym mis Tachwedd. Cyfarfod gyda pawb fuodd yn Gaerdydd yn ol ym mis Ebrill, gyda Cyngorwyr Annwen Hughes a Gwynfor Owen.

Cyfarfod am 9.00 y bore ger Cambrian Clearance er mwyn cerdded y Pentref.

4 diwrnod o rybudd medd Gwynfor Owen.

Nododd y Clerc ei bod wedi anfon at Gyngor Gwynedd yn datgan siom unwaith eto nad yw'r Cyngorwyr yn cael gwybod am hyn.

Nododd Eirwyn Thomas bod Cyngor Gwynedd wedi llogi y Neuadd ar y 20.2.24 ar gyfer gweithdai gyda Gwyn Davies, a rhanddeiliaid allweddol.

Gorsaf Dren Talwrn Bach

Nododd RW bod gwirfoddolwyr yn ail gychwyn gwneud archwiliadau o'r safle.

Hefyd yn mynegi diddordeb mewn gwella y safle a rhoi arwydd hysbysebu llwybrau cyhoeddus ar y waly no.

Nododd y Clerc ei bod wedi anfon manylion y bwrdd hysbysebu a'r costau, ond angen anfon llun o'r map.

Bod 2 gamgymeriad ar yr un gwreiddiol – Parcio ger y Fron (hyn yn anghywir) a hefyd enw anghywir ar y Bont (Pont Aberartro yn lle Pont Beser)

Tud 4.

Nododd Jane T Williams bod TFW wedi cysylltu yn dweud ein bod yn cael lloches Newydd yn Talwrn Bach (TFW wedi cysylltu)

Hyn yn deillio o'r cyfarfod a gawsom yn y Victoria ym mis Tachwedd.

Angen pwyo am arwydd Talwrn Bach yma hefyd – medd GO.

Nododd JE nad yw y platform yma yn ddigonol ar gyfer y trenau Newydd.

Nododd RW bod gwelliant yn y cyfarpar busiau yn awr. Newydd da.

CCTV – yn rhy fuan I wneud dim gyda hwn ar hyn o bryd. Ond wedi rhoi arian yn y gyllideb.

E.Byst gan Gavin Jones Openreach parthed posibilrwydd o band eang fibr optic I Lanbedr.

Bod angen l'r cyhoedd addunedu . Dim ond 27 eiddo preifat a 6 busnes sydd wedi gneud hyd yma. Bod £4500 ar gael I gychwyn y broses. Mae yn wasanaeth hanfodol. Land lines yn dod I ben diwedd 2025.

Pasiwyd bod y Clerc yn gwahodd Gavin Jones l'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor am 7.00 (7.3.24)

Llwybrau Cyhoeddus – nododd LV bod angen cael arwyddion ar rai llwybrau I fyny am Bryn Moel a Llwyn Hwlcyn o Hen Bandy. Mae yma hen gamdda haearn – Tan yr Arlle.

Materion Eraill

1. JTW - Arwydd Man Pasio a clawdd yn chwalu – Ffordd Cypla dal heb ei wneud – AH yn gweithredu ar hwn.
2. JTW - Draen ffordd Bryn Deiliog – gorlifo (Clerc yn gweithredu)
- 3 Man hole haearn yn rhydd ar y ffordd Ty'r Graig (Clerc I weithredu)
4. Nododd JE – bod pobl yn siarad am beidio rhoi arian I HAL, a cael gwelliant l'r toiledau cyhoeddus yn lle. Ond bod hyn eisioes yn y gyllideb.;

Nodi hefyd bod cyfarfod Cyngorau Ardal parthed HAL dal I gael ei gynnal 14.2.24 am 7.30

Hefyd bod Cyfarfodydd y Cyngor yn agored I bawb fynychu, a hefyd drwy wneud trefniadau gyda'r Cadeirydd gellir gwrandao adros zoom.